Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Gorffennaf 2025


“Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn canolbwyntio ar sector defaid y DU, gan dynnu sylw at dueddiadau cyfredol a ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y farchnad ar hyn o bryd.”

**Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**



*Cyrhaeddodd cyfartaledd pwysau marw ŵyn dethol Prydain £7.56/kg ddechrau mis Awst. Ers uchafbwyntiau misoedd haf, mae'r cyfartaledd wedi llacio ychydig – ond mae wedi aros yn uwch na lefelau'r flwyddyn flaenorol hyd yma yn ystod ail hanner 2025. Mae'r cyfartaledd diweddaraf yn sefyll tua 7% yn uwch na lefelau blwyddyn ynghynt ar £6.61/kg - tra yn nodi'r bedwaredd wythnos ddilynol o ostyngiadau yn y cyfartaledd.*


## CYFLENWAD




Yn ôl Defra, mae cyfanswm trwybwn defaid ac ŵyn ar gyfer 2025 (hyd at Medi) yn sefydlog ar lefelau'r flwyddyn flaenorol gyda 9.3 miliwn pen – dim ond **0.2% yn uwch** na'r un cyfnod yn 2024. O fewn y cyfanswm hwn, mae nifer o ddefaid llawn dwf a broseswyd i lawr 7% ar y flwyddyn i 1.0 miliwn pen, tra bod trwybwn ŵyn dethol wedi cofnodi cynnydd o 1% i 8.3 miliwn pen. Roedd defaid dethol yn cyfrif am 89.2% o gyfanswm y trwybwn (o gymharu â 87.7% yn 2023).Er gwaethaf trwybwn sefydlog, mae cyfanswm cynhyrchiant cig defaid **2% yn uwch** ar y flwyddyn i 197,200 tunnell. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei sbarduno gan bwysau carcas trymach o ganlyniad i gario mwy o Ŵyn Hen Dymor a broseswyd yn gynharach eleni drosodd. Wrth i Ŵyn Tymor Newydd (NSL) symud i ddominyddu'r cyflenwad, disgwylir i bwysau adlewyrchu cyfartaleddau tymhorol unwaith eto.

Wrth edrych ar y flwyddyn cnwd cig oen hyd yma (sy'n rhedeg o fis Mai ymlaen), mae lladd-dai'r DU wedi prosesu 4.6 miliwn o ŵyn hyd yma - cynnydd o 2% ar lefelau blwyddyn yn gynharach, ond mae hyn dal yn is na chyfartaleddau hanesyddol. Rydym ni'n aros am ganlyniadau *Arolwg y DU Mehefin 2025*, fodd bynnag mae'r data rhagarweiniol ar gyfer Lloegr yn awgrymu gostyngiad o 5% yn eu cynhaeaf ŵyn, a all effeithio ar gynhyrchiant domestig wrth symud ymlaen. Mae praidd bridio llai hefyd yn awgrymu cynhaeaf llai o ŵyn ar gyfer tymor wyna 2026.


## MASNACH




Mae data HMRC yn dangos bod allforion cig dafad ffres/wedi'i rewi o'r DU ym mis Awst 2025 wedi gostwng 2% flwyddyn ar flwyddyn i 6,100 tunnell, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn danfoniadau i'r UE. Fodd bynnag, mae allforion y DU ers dechrau'r flwyddyn wedi cynyddu **13%** i 55,300 tunnell, gyda 95% o'r danfoniadau yn mynd i'r UE. Mae'r galw o fewn yr UE yn gryf oherwydd gostyngiad mewn cynhyrchiant cig defaid flwyddyn ar flwyddyn mewn llawer o'r gwledydd cynhyrchu allweddol. Gyda chynhyrchiad domestig yn y DU i fyny 3% yn ystod yr un cyfnod 8 mis, mae'n debyg bod gan y DU fwy o gynnyrch ar gael i fodloni'r galw cynyddol hwn. Cynyddodd gwerth yr allforion hyn o 15% dros y flwyddyn i £425.2 miliwn, gan adlewyrchu prisiau domestig cryf.

Mae mewnforion cig defaid ffres/wedi'i rewi ar gyfer 8 mis cyntaf 2025 wedi **cynyddu 7%** dros y flwyddyn i 50,600 tunnell. Fodd bynnag, cwympodd mewnforion Awst yn unig 15% ar y flwyddyn, ar ôl ymchwydd yn ystod Gorffennaf gyda mewnforion tua 30% yn uwch ar y flwyddyn. Mae mewnforion sy'n tarddu o'r UE wedi gostwng 17%, tra bod mewnforion nad ydynt o'r UE wedi codi 10%, dan arweiniad Awstralia. Cynyddodd cyfaint Awstralia bron 5,000 ar y flwyddyn – gan gyrraedd cyfanswm o 15,800 tunnell, ac mae'n cyfrif am draean o'r mewnforion cyfan yn ystod 2025 hyd yma, er gwaethaf prisiau cig oen eithriadol yno oherwydd cyfyngiadau cyflenwi yn ystod eu cyfnod cyflenwi traddodiadol isel. Gostyngodd mewnforion Seland Newydd 2% ar y flwyddyn, ond mae'n parhau i gyfrif am y mwyafrif (58%) o'r cyfaint wedi'i fewnforio. Gan edrych ymlaen, bydd lefelau mewnforio yn y dyfodol yn dibynnu ar gynhyrchiant yn y DU a phrisio hemisffer y de.

## GALW




Yn ôl y data diweddaraf o Worldpanel gan Numerator UK, cododd chwyddiant pris bwyd i 5.2% yn ystod y pedair wythnos hyd at 5 Hydref - tebyg i lefelau mis Gorffennaf. Mae defnyddwyr yn parhau i wynebu prisiau siopau uwch, gan arwain llawer i addasu eu gwariant. Cynyddodd gwerthiannau ar-lein yn y siopau groser 12% o gymharu â'r un pedair wythnos y llynedd, gan ffurfio 13% o'r farchnad – y gyfran uchaf ers Mawrth 2022.

Ar gyfer cig oen; mae'r pris cyfartalog mewn siopau drwy Brydain wedi bod ar gynnydd. Yn ystod y cyfnod 12 wythnos diweddaraf a ddaeth i ben ar 5 Hydref 2025, roedd y pris cyfartalog yn sefyll ar £13.32/kg. Mae hwn yn gynnydd nodedig o **7.5%** o'i gymharu â lefelau'r flwyddyn flaenorol, ac mae wedi rhoi pwysau ar bŵer gwario defnyddwyr. Gostyngodd gwerthiant cyfaint 25% dros y flwyddyn, tra bod gwariant ar gig oen i lawr 19% - er gwaethaf prisiau uwch. Mae'r data'n awgrymu bod cwsmeriaid yn prynu llai o gyfaint gyda phob taith, ac yn llai cyson yn gyffredinol. Er gwaethaf perfformiad cryf yn ystod Pasg, mae gwerthiant cyfaint cig oen ar gyfer y flwyddyn hyd yma i lawr tua 15% ar y flwyddyn.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?*

*Mae diwydiant cig oen y DU yn llywio tirwedd gymhleth o alw allforio cryf, cynhyrchiant domestig sefydlog, a newid mewn ymddygiad cwsmeriaid. Er bod prisiau gât y fferm a gwerthoedd allforio uwch yn gadarnhaol i gynhyrchwyr, mae cyfaint manwerthu llai a chynhaeaf llai o ŵyn yn awgrymu heriau posibl yn y dyfodol.*

## GWARTHEG

### Prisiau — wythnos yn dod i ben 25 Hydref

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **650.4c/kg**. Roedd hyn:


- + 5.2c ar yr wythnos flaenorol,
- 140.2c uwchlaw lefelau flwyddyn ynghynt.


Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 646.0c/kg (+ 3.0c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 639.2c/kg (+ 6.9c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 521.1c/kg (+ 8.1c ar yr wythnos).

### Trwybwn - Medi 2025

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 230,900 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 169,600 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
    - ➢ *bustych -5%, heffrod -3%, a theirw ifanc +7%*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 347.3kg (+5kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 54,600 pen – i lawr 0.3% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau — wythnos yn dod i ben 25 Hydref

Roedd pris ŵyn pwysau marw* ym Mhrydain ar gyfartaledd yn **661.4c/kg**. Roedd hyn:

- - 0.9c ar yr wythnos flaenorol,
- + 42.2c o'i gymharu â lefelau flwyddyn ynghynt,
- 124.1c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 537.3c/kg).


Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 37,000 pen. Roedd hyn:


- - 4% ar yr wythnos flaenorol
- - 14% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach

**Noder: Dangosir ŵyn hen dymor o 1 Ionawr i'r trydydd dydd Llun ym mis Mai ac ŵyn tymor newydd wedi hynny.*

### Trwybwn - Medi 2025

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.0 miliwn pen – i lawr 6% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 906,200 pen – i lawr 5% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn cyfartalog = 20.1kg (-0.5kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 126,500 pen – i lawr 10% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau — wythnos yn dod i ben ar 25 Hydref

Roedd Pris Moch Safonol yr UE (SPP)* ym Mhrydain yn sefyll ar **203.7c/kg**. Roedd hyn:

- - 0.3c ar yr wythnos flaenorol,
- - 3.5c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 17.4c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 186.3c/kg).

**Nodyn: nid yw'r gyfres ddata APP bellach ar gael gan nad yw'r data bellach yn bodloni trothwyon dilysu. Nid yw'r SPP (sy'n defnyddio gwahanol ffynonellau data) yn cael ei effeithio.*

### Trwybwn - Medi 2025

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 885,500 pen – i fyny 1% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 869,000 pen – i fyny 1% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 90.7kg (- 0.8kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 16,500 pen – i lawr 6% ar y flwyddyn.

